**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher Ionawr 15fed 2014 am 6.45 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Gwydion Jones, Gerwyn Davies, Gwyn Williams

Presennol: Elen Edwards (Is-Gadeirydd), Diane Roberts, Tecwyn Evans, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Ian Griffith, Ann Vaughan, Gwynfor Davies, Cyngh Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd.

20.1 DATGAN CYSYLLTIAD – mynegodd Emlyn Williams gysylltiad ag eitem 6b ar yr Agenda – Cais Cynllunio Cornel Fatw, Gwytherin.

20.2 COFNODION –
25ain Tachwedd – cynigiodd Ann Vaughan a chytunwyd bod y cofnodion yn gywir.
27ain Tachwedd – cynigiodd Tecwyn Evans a chytunwyd bod y cofnodion yn gywir.
9fed Rhagfyr – cynigiodd Tecwyn Evans a chytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

20.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
Cofnod rhif 18.16.6 – gofynnodd Diane Roberts a fedrai'r Clerc anfon gwybodaeth a dderbyniwyd gan Adran Cynllunio Conwy ynglŷn a chanllawiau tyrbinau gwynt iddi hi.
Cofnod rhif 18.1 - Llwybr y Pererinion – adroddwyd bod arwyddion bach crwn wedi eu gosod yn yr ardal ar adeiladau ond eu bod i'w gweld o gyfeiriad Llansannan am Wytherin yn unig ac nid wrth deithio i'r cyfeiriad arall. PENDERFYNWYD cysylltu ag Ann Lloyd Williams ynglŷn a hyn ac i ofyn beth yw'r datblygiad ynglŷn a gosod camfa ar dir Llethr fel y soniwyd yn wreiddiol.

20.4 AGENDA A COFNODION AR E-BOST
Gofynnodd y Clerc a fyddai'r aelodau yn barod i dderbyn Agenda a Chofnodion ar e-bost ond bod y Clerc yn paratoi copïau i bob aelod ar gyfer y cyfarfod. Cytunodd y rhai oedd yn bresennol â hyn ond bod angen i'r rhai sy'n eu derbyn dros y wê anfon nodyn yn ôl i'r Clerc i gydnabod eu derbyn. Bydd y rhai heb gysylltiad gwê yn dal i dderbyn copïau drwy'r post.

20.5 MATERION FFYRDD – nodwyd bod draen ger Nant Mawr yn dal heb ei glanhau.

20.6 CYLLIDEB Y CYNGOR – GOFYNION PRAESEPT 2014/15
20.6.1 CYFLOG Y CLERC – gadawodd y Clerc y cyfarfod. PENDERFYNWYD fel amcangyfrif ar gyfer y Gyllideb, i godi'r cyflog 5% a bod Diane Roberts a Tecwyn Evans am ofyn am arweiniad gan Un Llais Cymru ynglŷn a hyn yn fuan.
20.6.2 BLODAU PENTREFI – yn y gorffennol Cyngor Conwy oedd yn gyfrifol am lenwi tybiau blodau ond erbyn hyn mae'r drefn wedi dod i ben. PENDERFYNWYD i drafod hyn yn y cyfarfod nesaf ac i gofio nodi hyn yn y Cylchlythyr. Efallai gallai'r Clwb Garddio ofalu am y blodau a gwneud cais am arian o Gronfa Bro Cernyw.
20.6.3 PRAESEPT – wedi trafodaeth ar y Gyllideb ddrafft a baratowyd gan y Clerc PENDERFYNWYD codi'r praesept i £8,850 eleni ac i gymryd y costau ychwanegol o'r coffrau.

20.7 MATERION CYNLLUNIO
20.7.1 CAIS RHIF 0/40376 Codi Ysgubor Amaethyddol yn Pant Manus, Pandy Tudur gan Mr Aled Williams. Derbyniwyd nodyn gan y Swyddog Cynllunio yn nodi bod y cais wedi ei gymeradwyo.
20.7.2 CAIS RHIF 0/40384 Estyniad i annedd i greu prif ystafell wely, ystafell amlbwrpas a chegin yn Cornel Fatw, Gwytherin gan Mr & Mrs D Williams. Gadawodd Mr Emlyn Williams y cyfarfod. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.
20.7.3 CAIS RHIF 0/40294 Adeiladu adeilad amaethyddol ar dir ger Bont Sylltu, Llangernyw gan Mr Gwynfor Davies. Derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar y cais oeddem wedi ei gymeradwyo o'r blaen.

20.8 DARPARIAETH CHWARAE MYNEDIAD AGORED
Derbyniwyd llythyr yn sôn am y ddarpariaeth chwarae a fu llynedd ac yn gofyn a oeddem am ymuno â'r cynllun eleni gyda'r un telerau â llynedd sef £342. PENDERFYNWYD i ofyn am adroddiad a mwy o fanylion am y cynllun yn Llangernyw llynedd, h.y. faint a fynychodd ac a ydynt yn awyddus i fynychu eto. Hefyd i holi faint o oriau sy'n cael eu cynnig o'i gymharu â llynedd.

20.9 GOHEBIAETH
Derbyniwyd llythyr gan y 'Planning Inspectorate' ynglŷn a chais gan SP Manweb Cyf am Orchymyn yn cymeradwyo caniatâd datblygu ar gyfer 'North Wales Wind Farms Connection project'. PENDERFYNWYD i'r Clerc wneud mwy o ymholiadau ynglŷn a'r llythyr.

20.10 MATERION LLEOL
20.10.1 Llwybr heibio Glan Collen am y Graig angen sylw – lle mae'r ffens wedi gwyro.
20.10.2 Cyfeiriwyd at gar yn cael ei ddefnyddio fel lle preswyl yn maes parcio Tafarn y Bont.
20.10.3 Llyn o ddŵr yn sefyll rhwng Wenlli a Nant y Wrach Bach.
20.10.4 Ochr y ffordd ger Pont Rhwng y ddwy ffordd – mae'r Adran Ffyrdd yn ymchwilio i hyn.
20.10.5 Gor-yrru rhwng yr Hen Felin a'r Graig – cais am arwyddion bach 30 mya.
20.10.6 Ymatebwyr Cyntaf – roedd yn ymddangos nad oedd grŵp yn Llangernyw ar hyn o bryd. Awgrymwyd y posibilrwydd o brynu diffribiliwr i bob canolfan gan nad oeddynt yn gostus iawn. Bydd angen rhoi hyn yn y Cylchlythyr nesaf.
20.10.7 Dŵr yn aros rhwng Pentre Wern a'r Bont Faen. Mae problem yma bob gaeaf yn y blynyddoedd diwethaf a bysiau cario plant ysgol yn teithio yn ddyddiol ffordd hyn.
20.10.8 Arwyddion Petryal wedi troi ac arwydd Give Way ger Pont Rhwngyddwyffordd wedi torri.
20.10.9 Pont Pandy Tudur angen sylw gan fod rhai o'r cerrig wedi symud.
20.10.10 Twll a phant drwg yn y ffordd rhwng Gell a Phlas yn Trofarth a thyllau wrth gyffordd Tyn Pistyll a'r A548.
20.10.11 Llyn o ddŵr ger Rhos Isaf, Llansannan a chyflwr y ffordd yn ddrwg.
20.10.12 Angen gwneud siŵr bod lle i gerddwyr basio arwydd sydd wedi ei osod ar y pafin ger yr arhosfan bws yng nghanol Llangernyw.
20.10.13 Pasiwyd i gefnogi cais Amgueddfa'r Cwm am gymorth ariannol i gynnal arddangosfa ar Chwedlau Bro Cernyw.
20.10.14 Ffos wedi tagu i fyny'r ffordd o Gartref yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur.
20.10.15 Angen sgubo llwybr troed o Gapel y Cwm at Barc Aelas.

20.11 BILIAU

| | |
|---|---|
| Hywel Evans (Cylchlythyr) | £6 |
| Canolfan Bro Cernyw (Hurio, tâl aelodaeth, rhent cwpwrdd) | £52 |
| Cyflog Chwarter a Chostau Clerc | £842.94 |
| Cyllid y Wlad (T.W.E.) | £1.80 |

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion      Arwyddwyd .Ian W Griffith...........  Dyddiad 29/1/2014....*

Community Council Meeting was held Wednesday 15 January 2014 at 6.45 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies : Gwydion Jones , Gerwyn Davies , Gwyn Williams

Present : Elen Edwards ( Vice Chair ) , Diane Roberts , Tecwyn Evans , Ifor Edwards , Emlyn Williams , Ian Griffith , Ann Vaughan , Gwynfor Davies , Cllr Dilwyn Roberts & Clerk .

Vice-chair welcomed everyone to the meeting..

20.1 DECLARATION - Emlyn Williams expressed connection with an item 6b on the Agenda - Planning Application Cornel Fatw , Gwytherin .

20.2 MINUTES -
25th November - Ann Vaughan proposed and all agreed that the minutes are correct .
27th November - Tecwyn Evans proposed and all agreed that the minutes are correct .
December 9 - Tecwyn Evans proposed and all agreed that the minutes are correct .

20.3 MATTERS ARISING FROM THE MINUTES
Minute number 18.16.6 - Diane Roberts asked the  Clerk if she was able to send information received from the Department of Planning re guidelines on wind turbines in Conwy to her .
Minute No. 18.1 - the Pilgrims Path - reported that little round signs have been installed on buildings in the area but they can be seen from the direction Llansannan to Gwytherin only and not when traveling in the opposite direction . RESOLVED Ann Lloyd Williams to be contacted regarding this and to ask what is the development re a stile on land at Llethr as mentioned previously.

20.4 AGENDA AND MINUTES ON E - MAIL
The Clerk asked whether members are willing to accept Agenda and Minutes on e - mail but that the Clerk would prepare copies to all members for the meeting . Those present agreed with this but that those who receive them over the internet should send a message back to the Clerk to acknowledge their receipt . Some members will still receive copies by mail .

20.5  HIGHWAYS ISSUES - noted that drain near Nant Mawr is still blocked. .

20.6 COUNCIL BUDGET - PRECEPT REQUIREMENTS 2014/15
20.6.1 CLERK SALARY - The Clerk left the meeting . RESOLVED as an estimate for the Budget , to pay a 5 % rise and Diane Roberts and Tecwyn Evans to seek guidance from OVW regarding this asap .
20.6.2 FLOWERS FOR THE VILLAGES – in the past Conwy Council was responsible for filling flower tubs but now the process has ended . RESOLVED to discuss this at the next meeting and to remember to specify this in the Newsletter . Perhaps the Llangernyw Gardening Club could take over the responsibility and apply for funding from the ‘Bro Cernyw Fund’ .
20.6.3 PRECEPT - following discussion on the draft budget prepared by the Clerk RESOLVED raising the precept to £ 8,850 this year and take the additional costs from reserves .

20.7 PLANNING
20.7.1 APPLICATION NUMBER 0 / 40 376 Agricultural Barn at Pant Manus , Pandy Tudur by Mr Aled Williams . We received a note from the Planning Officer stating that the application has been approved .
20.7.2 APPLICATION No. 0 / 40384 Extension to dwelling to create a master bedroom , utility room and kitchen at Cornel Fatw , Gwytherin by Mr & Mrs D Williams . Mr Emlyn Williams left the meeting . RESOLVED to support the application .
20.7.3 APPLICATION NUMBER 0 / 40 294 Erection of agricultural building on land near Bont Sylltu , Llangernyw by Mr Gwynfor Davies . Additional information was received on the application we had previously approved.

20.8 OPEN ACCESS PLAY PROVISION
Information regarding the play scheme last year was received and asked whether we wanted to join the scheme this year with the same terms as last year at £342. RESOLVED to request a report and more details about the Llangernyw scheme last year , ie who attended and are they willing to attend again . In addition need to ask how many hours are being offered compared to last year .

20.9 CORRESPONDENCE
A letter from the ' Planning Inspectorate ' about a request from SP Manweb Ltd for an Order approving a development consent for 'North Wales Wind Farms Connection project ' . RESOLVED that the Clerk to make inquiries about the letter .

20:10 LOCAL ISSUES
20.10.1 Pavement past Glan Collen toward Y Graig needs attention - where the fence has collapsed .
20.10.2 Reference to a car being used as a place of residence in the car park of the

Bridge Inn .
20.10.3 Water between Wenlli and Nant y Wrach Bach.
20.10.4 Roadside near Rhwng y ddwy ffordd- the Highways Department is looking into this .
20.10.5 Speeding between the Old Mill and Y Graig - application for small signals 30 mph .
20.10.6 First Responders - it seemed that there was not a group in Llangernyw currently . The possibility of purchasing a defibrillator for each community centre was discussed as they were not very expensive . Need to put this in the next Newsletter .
20.10.7 Water stays between Pentre Wern and Bont Faen . There is a problem here every winter in recent years and a school bus travels along this road daily .
20.10.8 Signs near Petryal turned round and Give Way sign near Pont Rhwngyddwyffordd is broken.
20.10.9 Bridge Pandy Tudur needs attention as some of the stones have moved .
20:10:10 Holes and road in the bad way between Plas yn Trofarth and Gell and holes at the junction of the A548 Tyn y Pistyll. .
20:10:11 Water near Rhos Isaf , Llansannan and condition of the road is bad .
20:10:12 Need to make sure that there is room for pedestrians to pass a sign that is placed on the pavement near the bus stop in the middle of Llangernyw .
20:10:13 Resolved to support Syr Henry Jones Museum’s application for financial assistance to hold an exhibition about The Legends of Bro Cernyw .
20:10:14 Trench blocked up the road from the Old Vicarage Nursing Home, Pandy Tudur.
20:10:15 Footpath needs sweeping between Capel y Cwm and Parc Aelas .

20.11 BILLS
Hywel Evans ( Newsletter ) £ 6
Canolfan Bro Cernyw ( Hire , membership fees , rent for cupboard ) £ 52
Clerk Quarterly Wages and Costs £ 842.94
Inland Revenue ( PAYE ) £ 1.80

The meeting ended at 8.40 pm.

*Minutes approved* *Signed .Ian W Griffith.................. Date ..29/1/14............................*